Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**Cynorthwy-ydd Gweinyddol / Derbynnydd**
**Rhif y Swydd: NU405**

**Gradd 4 £18,795 - £19,171**
**Parhaol**
**37 Awr yr wythnos**

Mae'r swydd wag Parhaol uchod wedi codi o fewn yr Adran Cymorth Busnes ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a leolwyd ym Mharc Busnes Forest View, Llantrisant. CF72 8LX.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu cymorth clerigol a gweinyddol i adrannau ar draws y sefydliad. Rhaid i ymgeiswyr feddu ar brofiad blaenorol o weithio mewn rôl weinyddol, gan gynnwys profiad tystiolaethol o ddefnyddio cymwysiadau Microsoft Office. Bydd yr ymgeisydd hefyd yn gyfrifol am gynnwys y dderbynfa, y switsfwrdd a'r post yn ôl y gofyn.

Mae sgiliau trefnu rhagorol, cywirdeb a sylw i fanylion yn hanfodol ar gyfer y rôl hon ynghyd â sgiliau iaith Gymraeg. Gweler y Disgrifiad Swydd a'r Fanyleb Person i gael rhagor o fanylion.

Gellir canfod mwy o fanylion sy'n ymwneud â'r swydd hon yn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Manyleb Person y gellir eu lawr lwytho ynghyd â'r Ffurflen Gais o dudalen Gweithio i Ni /Swyddi Diweddaraf ein gwefanwww.decymru-tan.gov.uk.

Dylid dychwelyd Ffurflenni Cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tan ac Achub De Cymru Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX neu drwy law e-bost i personnel@decymru-tan.gov.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw: **12:00 hanner dydd, ar 30/10/2019.** Mae dyddiad y cyfweliad eto i'w gadarnhau.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg. Ystyrir opsiynau ar gyfer rhannu swydd. Nodwch yn glir ar eich cais os dymunwch ymgeisio i rannu swydd.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni chaiff ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yn y gwerth gwirioneddol o gael gweithlu amrywiol ac rydym yn rhagweithiol ac yn awyddus i annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i wneud cais.**

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG